# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 1 Mai 2012**

Amser y cyfarfod:
**13:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(60)

### 1. Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13:30.

Gofynnwyd y 15 cwestiwn.  Gwahoddodd y Llywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2. Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14:28.

### 3. Datganiad gan y Dirprwy Weinidog Sgiliau: Twf Swyddi Cymru

Dechreuodd yr eitem am 14:47.

### 4. Datganiad gan y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth: Yr Adolygiad o Ddeddfwriaeth ar Ddigartrefedd

Dechreuodd yr eitem am 15:19.

### 5. Cynnig Cydsyniad ar Orchymyn y Pwyllgor Cynghori ar Sylweddau Peryglus (Dileu) 2012

Dechreuodd yr eitem am 16.02

**NDM4928 John Griffiths (Dwyrain Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn cytuno, yn unol ag adran 9(6) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus 2011, bod yr Ysgrifennydd Gwladol yn gwneud Gorchymyn y Pwyllgor Cyngor ar Sylweddau Peryglus (Dileu) 2012, yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 28 Chwefror 2012.

**Derbyniwyd y cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 6. Dadl ar Strategaeth Fwyd Llywodraeth Cymru – y ffordd ymlaen

Dechreuodd yr eitem am 16:02.

**NDM4966 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i:

a) ddatblygu'i gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer bwyd yng Nghymru;
b) adolygu ac adnewyddu'r strategaeth fwyd bresennol;
c) cefnogi'r diwydiant cynhyrchu bwyd drwy ddatblygu, hyrwyddo a marchnata bwyd o Gymru, a chryfhau cysylltiadau'r gadwyn gyflenwi.

Mae Strategaeth Fwyd Llywodraeth Cymru – Bwyd i Gymru, Bwyd o Gymru 2010:2020 ar gael drwy'r ddolen ganlynol:

http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/foodandfisheries/foodandmarketdevelopmentpubs/foodstratdoc/?skip=1&lang=cy

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Yn is-bwynt 1a), dileu'r gair "uchelgeisiol".

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 36* | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

*Cafodd canlyniadau'r bleidlais hon eu cywiro ar 14 Mai 2012 i adlewyrchu Cofnod y Trafodion.

**Gwelliant 2 – William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gefnogi gweithrediad llawn Pecyn Llaeth yr UE oni ellir dod i gytundeb gwirfoddol ar god ymarfer ar gyfer contractau llaeth rhwng y partïon perthnasol yn y gadwyn gyflenwi llaeth.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 18 | 0 | 35 | 53 |

**Gwrthodwyd gwelliant 2.**

Ni chofrestrwyd pleidlais Ann Jones ar welliant 2 oherwydd nam technegol.

**Gwelliant 3 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn dathlu bod gan gynnyrch o Gymru enw da o'r radd flaenaf ac yn annog siopwyr i werthu rhagor o fwyd o Gymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 53 | 0 | 0 | 53 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu'r cyfraniad pwysig cynyddol a wneir gan fwyd o Gymru i'r sector twristiaeth gynaliadwy, yn enwedig drwy feithrin 'naws am le'.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Gwelliant 5 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi pwysigrwydd bwyd yn eu tymor ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog defnyddwyr i brynu rhagor o gynnyrch yn eu tymor er mwyn hybu bwyd o Gymru a gwella cynaliadwyedd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 5:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 5.**

**Gwelliant 6 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn gresynu wrth benderfyniad Llywodraeth Cymru i israddio'r portffolio Materion Gwledig a'r effaith negyddol y gallai hyn ei chael ar ei gallu i gyflawni'r strategaeth fwyd.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 6:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 27 | 0 | 28 | 55 |

**Fel sy'n ofynnol o dan Reol Sefydlog 6.20, defnyddiodd y Dirprwy Lywydd ei bleidlais fwrw drwy bleidleisio yn erbyn y gwelliant. Felly, gwrthodwyd gwelliant 6.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4966 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. yn nodi ymrwymiad Llywodraeth Cymru i:

a) ddatblygu'i gweledigaeth uchelgeisiol ar gyfer bwyd yng Nghymru;

b) adolygu ac adnewyddu'r strategaeth fwyd bresennol;

c) cefnogi'r diwydiant cynhyrchu bwyd drwy ddatblygu, hyrwyddo a marchnata bwyd o Gymru, a chryfhau cysylltiadau'r gadwyn gyflenwi;

d) yn dathlu bod gan gynnyrch o Gymru enw da o'r radd flaenaf ac yn annog siopwyr i werthu rhagor o fwyd o Gymru;

e) yn croesawu'r cyfraniad pwysig cynyddol a wneir gan fwyd o Gymru i'r sector twristiaeth gynaliadwy, yn enwedig drwy feithrin 'naws am le';

f) yn nodi pwysigrwydd bwyd yn eu tymor ac yn galw ar Lywodraeth Cymru i annog defnyddwyr i brynu rhagor o gynnyrch yn eu tymor er mwyn hybu bwyd o Gymru a gwella cynaliadwyedd.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 41 | 0 | 13 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

## 7. Dadl ar Ymchwil ac Arloesi mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Dechreuodd yr eitem am 17.00

**NDM4967 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod bod ymchwil ac arloesi mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol i iechyd, lles a chyfoeth pobl yng Nghymru.

**Gohiriwyd y bleidlais ar y cynnig a'r gwelliannau o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:

**Gwelliant 1 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod yr angen i gyllido a buddsoddi'n ddigonol mewn iechyd a gofal cymdeithasol er mwyn gwireddu a gweithredu manteision unrhyw ymchwil newydd, ac yn gresynu y bydd toriadau mewn termau real i gyllidebau'r GIG yng Nghymru yn rhwystro hyn.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 1:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 13 | 0 | 41 | 54 |

**Gwrthodwyd gwelliant 1.**

**Gwelliant 2 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am fuddsoddiad ychwanegol mewn canolfannau ymchwil yng Nghymru er mwyn denu'r deallusion gorau o bedwar ban byd a chynyddu'r potensial am gydweithio gwerth uchel gyda phartneriaid diwydiannol.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 2:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 2.**

**Gwelliant 3 - William Graham (Dwyrain De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod rôl y Sector Addysg Uwch o ran darparu ymchwil o'r radd flaenaf sydd â'r potensial i ddarparu atebion arloesol ar gyfer heriau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 3:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 3.**

**Gwelliant 4 - Peter Black (Gorllewin De Cymru)**

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi datblygiadau arloesol i ddigwydd yn y gwasanaeth iechyd yn Felindre, fel therapi ymbelydredd a arweinir gan ddelweddau a radiotherapi abladol stereotactig.

Cynhaliwyd pleidlais ar welliant 4:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd gwelliant 4.**

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig wedi'i ddiwygio:**

**NDM4967 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn cydnabod bod ymchwil ac arloesi mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn hanfodol i iechyd, lles a chyfoeth pobl yng Nghymru.

Yn galw am fuddsoddiad ychwanegol mewn canolfannau ymchwil yng Nghymru er mwyn denu'r deallusion gorau o bedwar ban byd a chynyddu'r potensial am gydweithio gwerth uchel gyda phartneriaid diwydiannol.

Yn cydnabod rôl y Sector Addysg Uwch o ran darparu ymchwil o'r radd flaenaf sydd â'r potensial i ddarparu atebion arloesol ar gyfer heriau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru.

Yn credu y dylai Llywodraeth Cymru gefnogi datblygiadau arloesol i ddigwydd yn y gwasanaeth iechyd yn Felindre, fel therapi ymbelydredd a arweinir gan ddelweddau a radiotherapi abladol stereotactig.

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 54 | 0 | 0 | 54 |

**Derbyniwyd y cynnig wedi'i ddiwygio.**

**Cyfnod Pleidleisio**
Dechreuodd yr eitem am 17.45

Daeth y cyfarfod i ben am 17:50

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13:30, Dydd Mercher, 2 Mai 2012**